# CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

# ADRODDIAD CYNTAF Y PWYLLGOR SAFONAU 2000

Cwyn yn erbyn Aelod

Cylch Gwaith ac Aelodaeth y Pwyllgor Safonau

Etholwyd y Pwyllgor Safonau o dan Reol Sefydlog 16 i ystyried cwynion a gyfeiriwyd ato gan y Llywydd ynghylch torri, neu bosibilrwydd y torrwyd, gofynion Rheol Sefydlog 4 neu unrhyw benderfyniad gan y Cynulliad mewn perthynas â buddiannau ariannol neu fuddiannau eraill Aelodau neu baragraff 2.8 Rheol Sefydlog 2; neu unrhyw un o'r protocolau neu ganllawiau safonau ymddygiad Aelodau a gymeradwywyd gan benderfyniad y Cynulliad; neu'r canllawiau ar gyfer Ysgrifenyddion y Cynulliad a gymeradwywyd gan y Cynulliad dan baragraff 2.7 Rheol Sefydlog 2.

Cadeirydd y Pwyllgor yw David Melding. Dyma'r aelodau:

| | | |
|---|---|---|
| David Melding (Cadeirydd) | Canol De Cymru | Ceidwadwyr |
| Janet Davies | Gorllewin De Cymru | Plaid Cymru |
| Richard Edwards | Preseli Sir Benfro | Llafur |
| Val Feld | Dwyrain Abertawe | Llafur |
| Janice Gregory | Ogwr | Llafur |
| Brian Hancock | Islwyn | Plaid Cymru |
| Christine Humphreys | Gogledd Cymru | Democratiaid Rhyddfrydol |
| Gareth Jones | Conwy | Plaid Cymru |
| Gwenda Thomas | Castell-nedd | Llafur |

| | |
|---|---|
| Clerc | Barbara Wilson |
| Dirprwy Glerc | Julie Grant |

Diben a Chwmpas yr Adroddiad

Gosodir yr adroddiad gerbron y Cynulliad yn unol â Rheol Sefydlog 16.6. Mae'n ymwneud â honiad y torrwyd y Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau'r Cynulliad, y penderfynodd y Cynulliad ei fabwysiadu ar 18 Mai 1999. Yr honiad yw y camddefnyddiwyd Deunydd Swyddfa'r Cynulliad.

Ymdriniwyd â'r gyn yn unol â gweithdrefn ddrafft a ystyriwyd gan y Pwyllgor Safonau yn ei gyfarfod ar 11 Tachwedd 1999 ac a ddosbarthwyd i holl Aelodau'r Cynulliad er mwyn iddynt roi eu sylwadau arno ym mis Rhagfyr 1999. Ar hyn o bryd mae'r Pwyllgor wrthi'n ystyried y sylwadau a dderbyniwyd. Gofynnwyd i'r Ymgynghorydd Annibynnol, sydd newydd ei benodi, am gyngor ar y copi drafft a'r sylwadau cyn llunio'r weithdrefn derfynol. Er hynny, mae'r Pwyllgor wedi defnyddio'r weithdrefn ddrafft wrth ymdrin â'r gyn hon.

Ar ôl cyfeirio cwyn i ddechrau, prif gam cyntaf y weithdrefn ddrafft yw ymchwiliad cychwynnol i sefydlu a yw'n achos sydd angen ei ystyried yn llawn. Y bwriad yn y cam hwn yw peidio ag enwi unrhyw un cyn belled ag y bo modd er mwyn gwarchod pawb y mae'r gyn yn ymwneud â hwy, a'r Aelod sy'n destun y gyn yn fwy na neb.

Yr Ymgynghorydd Annibynnol sy'n cynnal yr ymchwiliad cychwynnol. Y bwriad yw sefydlu a yw'n bosibl y torrwyd y Rheolau Sefydlog perthnasol, penderfyniadau'r Cynulliad, neu'r protocolau neu ganllawiau a gymeradwywyd (neu a yw'n bosibl y cyflawnwyd trosedd o dan Adran 72 Deddf Llywodraeth Cymru 1998 y mae angen rhoi gwybod i'r heddlu amdani) ac os felly, a ellid cyfiawnhau ymchwiliad llawn, pellach. Yn ei adroddiad, mae'r Ymgynghorydd Annibynnol yn gwneud argymhelliad i'r Pwyllgor ar y materion hyn er mwyn ei gynorthwyo i benderfynu beth i'w wneud nesaf.

Mae'r Pwyllgor wedi penderfynu y dylid gwrthod yr achos dan sylw, am y rhesymau a nodir isod. Yn unol â'r weithdrefn ddrafft, nid yw'r adroddiad hwn yn enwi'r Aelod dan sylw. Ystyria'r Pwyllgor bod y modd yr ymdriniwyd â'r achos arbennig hwn yn codi nifer o bwyntiau, ac amlinellir y rhain isod yn ogystal.

<u>Crynodeb o ystyriaeth y Pwyllgor</u>

Gwnaed y gyn yn erbyn yr Aelod gan rywun a dderbyniodd lythyr ar ddeunydd ysgrifennu'r Cynulliad gan yr Aelod. Gwahoddiad oedd y llythyr i ddigwyddiad a gynhaliwyd yn adeilad y Cynulliad Cenedlaethol, ac roedd yn ymddangos i'r sawl a gwynodd fod y llythyr wedi cael ei ddosbarthu'n eang. Haerodd yr achwynwr fod y llythyr yn ddefnydd amhriodol o'r deunydd ysgrifennu a ddarperir am ddim gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, gan ddweud y dylai fod wedi'i ysgrifennu ar bapur plaen wedi'i ddarparu'n bersonol gan yr Aelod.

Ar ôl derbyn y llythyr, gofynnwyd i'r Ymgynghorydd Annibynnol gynnal ymchwiliad cychwynnol a pharatoi adroddiad ar gyfer y Pwyllgor Safonau. Rhoddwyd gwybod i'r Aelod dan sylw, a derbyniodd gopi o adroddiad yr Ymgynghorydd ar yr un pryd ag y'i hanfonwyd at y Pwyllgor.

Cyfarfu'r Pwyllgor yn breifat ar 11 Mai (o dan Reol Sefydlog 16.5) i ystyried y gyn. Roedd yr Aelod dan sylw wedi nodi ei fod yn dymuno gwneud cyflwyniad i'r Pwyllgor ac fe'i gwahoddwyd i wneud hynny. Gwrandawodd y Pwyllgor ar ei gyflwyniad llafar ar 11 Mai.

Hanfod yr honiad yw beth yw defnydd priodol o benllythyrau'r Cynulliad. Y Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a fabwysiadodd y Cynulliad ar 18 Mai 1999 yw'r prif god perthnasol. Noda paragraff 5 'Ymarfer yr Egwyddorion' yn y Cod

> *"Ni chamddefnyddir unrhyw dâl neu lwfans a roddir i Aelodau at ddibenion cyhoeddus a rhaid dilyn yn ofalus y rheolau gweinyddol sy'n gymwys i daliadau a lwfansau o'r fath."*

Mae Pwyllgor y T wedi ystyried canllawiau'n ymwneud â defnyddio deunydd ysgrifennu ac adnoddau eraill y Cynulliad Cenedlaethol. Cymeradwywyd y canllawiau gan y Llywydd, ond nid oeddynt wedi'u dosbarthu ar adeg cyfarfod y Pwyllgor Safonau. Mae'r canllawiau drafft yn nodi na ddylid defnyddio deunydd ysgrifennu'r Cynulliad ar gyfer gohebiaeth bersonol, at ddibenion gwleidyddiaeth bleidiol nac er mwyn ymgyrchu. Ni ddylid anfon cylchlythyrau ar benllythyrau gwreiddiol oni bai eu bod yn ymwneud yn uniongyrchol â dyletswyddau Aelod, neu fel a ddarperir yn y Canllawiau. Argymhelliad cychwynnol yr Ymgynghorydd Annibynnol ar Safonau, yn seiliedig ar ddarpariaeth y Canllawiau, oedd y gallai peth sylwedd fod i'r gyn ac y dylid cynnal ymchwiliad llawn i sefydlu ffeithiau'r achos.

Nododd y Pwyllgor adroddiad yr Ymgynghorydd a chyflwyniadau'r Aelod dan sylw. Fodd bynnag, ystyriodd y Pwyllgor na ddylid parhau ymhellach â'r gyn ac y dylid gwrthod yr achos ar yr adeg hon, gan nad yw'r canllawiau wedi'u dosbarthu'n ffurfiol a chan nad yw'r canllawiau drafft yn cynnwys unrhyw gyswllt pendant a diamwys rhyngddynt a'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau'r Cynulliad.

<u>Materion yn codi o'r achos hwn</u>

Cododd nifer o faterion wrth ystyried yr achos arbennig hwn.

1. <u>Cadw Aelodau'n ddienw</u>

Fel a nodwyd uchod, cynlluniwyd y drefn gwyno i warchod Aelodau cyn belled ag y bo modd felly cedwir yr Aelod yn ddienw i'r graddau mwyaf posibl yn ystod y camau cynnar. Yn yr achos hwn dewisodd yr Aelod roi cyhoeddusrwydd eang i'r achos, gan gynnwys yn y cyfryngau. Mae'r Pwyllgor yn gresynu'n fawr yngln â hyn. Felly, yn unol â dewis eglur y Pwyllgor, ac er mwyn amddiffyn ei safbwynt wrth ymdrin ag unrhyw gwynion yn y dyfodol, nid yw'r adroddiad hwn yn enwi'r Aelod. Am resymau tebyg, ni fydd y deunydd manwl a ystyriwyd gan y Pwyllgor a chofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd i ystyried yr achos ar gael i'r cyhoedd.

Mae'r Pwyllgor yn bwriadu ystyried ymhellach y trefniadau ar gyfer cadw'r trafodion yn gyfrinachol, gan gynnwys dyletswyddau canfyddedig y sawl sy'n cwyno, yr Aelod y

gwnaed y gyn yn ei erbyn, ac Aelodau'r Pwyllgor.

2. Llif gwybodaeth

Nid yw'r Rheolau Sefydlog na chopi drafft presennol y weithdrefn gwynion yn cynnwys unrhyw fanylion ynghylch pryd na sut ddylid rhoi gwybod i Aelod am gyn, nac unrhyw gynigion ar gyfer cysylltu â'r Pwyllgor ac eithrio nodi y gellir gwneud cyflwyniadau llafar a/neu ysgrifenedig yn ystod ymchwiliad (yn unol â Rheol Sefydlog 16.5).

Mae'r Pwyllgor yn ystyried y dylid rhoi gwybod i'r Aelod dan sylw cyn gynted ag y bo'r Llywydd yn cyfeirio cwyn ato. Mae'n bosibl y gallai fod angen gwneud eithriad i hyn ble'r ymddengys y gallai Adran 72 Deddf Llywodraeth Cymru fod wedi'i thorri. Cyfeirir achos o'r fath at yr heddlu'n gyntaf, yn unol â phrotocol sydd wrthi'n cael ei ystyried gyda hwy, a byddai'n rhaid ymgynghori â'r heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron cyn penderfynu pryd i roi gwybod i'r Aelod.

Mewn achosion a ystyrir gan y Pwyllgor Safonau, byddai'r Aelod y gwneir y gyn yn ei erbyn yn derbyn copi o adroddiad yr Ymgynghorydd Annibynnol. Byddai'r Aelod yn gallu gwneud cyflwyniadau llafar neu ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Os bydd y Cynulliad yn ystyried adroddiad y Pwyllgor mewn cyfarfod llawn bydd yr Aelod, unwaith eto, yn cael cyfle i wneud cyflwyniadau a/neu ddatganiad personol.

3. Amserlen

Nid yw'r weithdrefn gwyno ddrafft yn cynnwys unrhyw amserlen. Dywed Rheolau Sefydlog 16.4 ac 16.6 y dylai'r Pwyllgor ystyried unrhyw gyn a rhoi adroddiad i'r Cynulliad cyn gynted ag y bo modd. Mae'r Pwyllgor yn awyddus y dylid ymdrin ag achosion yn gyflym. Hysbyswyd Swyddfa'r Llywydd o'r achos arbennig hwn ar 10 Ebrill 2000 ac fe'i cyfeiriwyd at yr Ymgynghorydd Annibynnol ar 14 Ebrill. Hysbyswyd y Pwyllgor a'r Aelod dan sylw ar 26 Ebrill. Cyfarfu'r Pwyllgor i ystyried yr achos ar 11 Mai ac ysgrifennodd y Cadeirydd at yr Aelod i roi gwybod iddo am y penderfyniad yn ddiweddarach y diwrnod hwnnw. Gosodwyd yr adroddiad hwn ar 26 Mai.

Mae'r Pwyllgor yn ystyried bod hon yn amserlen resymol ond bydd yn cadw golwg ar y mater. Dylai ymchwiliad gymryd cyhyd ag sy'n angenrheidiol er mwyn sicrhau y cesglir ac yr asesir yr holl dystiolaeth briodol.

4. Awdurdodaeth

Un anhawster arbennig gyda'r achos hwn fu'r ffaith bod angen penderfynu a oedd y gyn yn rhan o gylch gwaith y Pwyllgor. Mae'r Pwyllgor yn ystyried bod angen sefydlu cyswllt rhwng y Canllawiau ar ddefnyddio deunydd ysgrifennu ac adnoddau'r Cynulliad, ac egwyddor y taliadau a lwfansau yn y Cod Ymddygiad. Ystyria'r Pwyllgor y dylai'r Aelodau allu defnyddio deunydd ysgrifennu'r Cynulliad (a'r gwasanaeth post), dan delerau'r Canllawiau, i anfon gwahoddiadau i ddigwyddiadau sydd o ddiddordeb cyffredinol ac sy'n gysylltiedig â busnes y Cynulliad, yn wahanol i wahoddiadau neu lythyrau eraill sy'n

ymwneud â materion personol neu wleidyddol bleidiol, at ddibenion busnes neu er mwyn ymgyrchu. Yn gyffredinol, mater i'r Llywydd ac i'r Clerc a'i staff, yn gweithredu ar ran y Llywydd, yw penderfynu a yw'n briodol i ddefnyddiol deunyddiau ysgrifennu ac adnoddau eraill.

Er hynny, gellid cyflwyno cwyn i'r Pwyllgor Safonau pe torrid y canllawiau. Mae'r Pwyllgor yn ystyried felly y dylid ailedrych ar y Canllawiau cyn eu dosbarthu er mwy crisialu'r pwyntiau hyn. Mae'r Pwyllgor hefyd yn argymell y dylid ailedrych ar ganllawiau perthnasol eraill er mwyn gweld i ba raddau y dônt o dan awdurdodaeth y Pwyllgor. Dylid egluro'r sefyllfa i'r Aelodau os oes posibilrwydd mai dyma'r achos.

<u>Goblygiadau ar gyfer y Weithdrefn Gwyno</u>

Bwriada'r Pwyllgor gymryd yr uchod i ystyriaeth cyn llunio'r weithdrefn gwyno derfynol a'i mabwysiadu. Yn ogystal, ac yn arbennig gan y gallai achosion pellach godi pwyntiau eraill, mae'r Pwyllgor yn disgwyl adolygu'r weithdrefn eto mewn pryd ar gyfer cyflwyno'i ail adroddiad blynyddol i'r Pwyllgor yn 2001.

<u>Crynodeb</u>

Dyma adroddiad cyntaf y Pwyllgor Safonau ar gyn y mae wedi'i hystyried gan ddilyn y weithdrefn ddrafft. Ar ôl i'r Ymgynghorydd Annibynnol ar Safonau gynnal ymchwiliad cychwynnol, ac ar ôl i'r Aelod dan sylw wneud cyflwyniadau, mae'r Pwyllgor wedi penderfynu gwrthod yr achos. Fodd bynnag, cododd nifer o bwyntiau yn sgil yr achos ac fe'u hystyrir wrth lunio'r weithdrefn gwyno derfynol. Bydd y Pwyllgor yn parhau i gadw golwg ar y weithdrefn. Dylai'r Llywydd a'i staff hefyd adolygu cwmpas canllawiau perthnasol.

D MELDING

Cadeirydd y Pwyllgor Safonau

26 Mai 2000